## PRIFYSGOL CYMRU ABERYSTWYTH

### Adolygiad o Addysg Uwch — Cyflwyniad byr

- Sefydliad dysg yw pob prifysgol, a phriod waith prifysgol fel Prifysgol Cymru, Aberystwyth yw cynnal ysgolheictod, gwneud gwaith ymchwil o'r radd flaenaf yn y gwyddorau a'r dyneiddiaethau, ac addysg pobl, sef adnodd pwysicaf pob cymdeithas, pobl ddeallus a medrus a fydd yn hyrwyddo ffyniant y wlad. Oherwydd ein rhagoriaeth mewn ymchwil ac addysgu yr ydym yn cyflawni'n cenhadaeth bwysig arall, sef hybu datblygiad economaidd: y prifysgolion yw prif weithredyddion newidiaeth dechnolegol yr oes sydd ohoni a phrif yrwyr newidiaeth yn gyffredinol, gan mai hwynt-hwy sy'n datblygu'r syniadau newydd sydd yn gyrru'r economi wybodaethol. Yn Aberystwyth dymunwn gydweithio gyda diwydianwyr a masnachwyr fel gyda'n cydacademyddion.

- Rhaid ystyried hefyd cymaint o gyfraniad a wna Prifysgol Cymru, Aberystwyth i'r economi leol *wrth fod*. Dyma gyflogwr mwyaf y cylch, ac fel cyflogwr o safon yr ydym yn denu i'r cylch bobl wir alluog. Gyda chymorth asiantaethau fel y WDA sefydlwyd cwmnïau sgil-gynhyrchiol. Melys moes mwy.

- Lleolwyd y brifysgol hon mewn mangre hyfryd, ond y mae i'n lleoliad anfanteision yn ogystal â manteision. Er mwyn parhau i ffynnu, rhaid i Aberystwyth ddenu a derbyn myfyrwyr preswyl. Llwyddwn i wneud hynny drwy gynllunio'n cyrsiau yn y fath fodd ag i'w gwneud yn ddeniadol i genedlaethau newydd o efrydwyr a thrwy gyflwyno cyrsiau a fydd yn adlewyrchu gofynion darpar-gyflogwyr yn ogystal. Hyderwn y bydd y Cynulliad Cenedlaethol, wrth lunio polisïau at y dyfodol, yn dwys ystyried anghenion amgen ardaloedd gwledig.

- Mewn ardaloedd fel hyn y mae hyfedru pobl o'r pwys mwyaf. Edrychwn ymlaen at gydweithio â'r Cyngor Addysg a Hyfforddiant yn hyn o waith, gwaith y gallwn ei wneud orau efallai ar y cyd â sefydliadau Addysg Uwch eraill.

- Elfen dra phwysig o'n gwaith yw cynnal a hyrwyddo'r Gymraeg a'i diwylliant, drwy gyrsiau academaidd, drwy gyflogi pobl sy'n cyfrannu'n uniongyrchol i'r celfyddydau, i ddarlledu ac i ddiwylliant yn gyffredinol, a thrwy gynnal Canolfan Gelfyddydol a ddyry lwyfan a lle i Gymreictod.

- Er y pwyslais uchod am Gymru a Chymreictod, rhaid inni ymwneud â phrifysgolion ledled y Deyrnas Unedig ac yn wir ledled y byd. Denwn staff a myfyrwyr lawer i Gymru, ac arddangoswn iddynt y gorau o Gymru. Dyma wiw wasanaeth. Am mai yn y cyd-

destun hwn y gweithiwn rhaid inni gael yr un adnoddau ariannol â Lloegr a'r Alban i iawn gystadlu â hwy.

- O gystadlu, y mae'n bwysig bod Cymru yn llwyddiannus mewn ymchwil. Prif fynegeion llwyddiant yma yw'r perfformiad yn yr RAE a'n gallu i ddenu grantiau oddi wrth y Cynghorau Ymchwil. Diwygiwyd llawer yn Aberystwyth er RAE 1996 ac yr ydym yn ffyddiog y gwnawn yn sylweddol well yn RAE 2001. Yn ôl y Mynegeion Perfformiad a gyhoeddir gan y Cynghorau Ymchwil, a chadw mewn cof ein amrywiaeth o bynciau, daethom yn 4ydd yn y Deyrnas Unedig.

- I'r dyfodol, dymunwn adeiladu ar y llwyddiant hwn, mewn cydweithrediad ag eraill. Dymunwn hefyd ychwanegu at ein rhaglenni dysgu mewn ymgynghoriad ag eraill, i gynnal Addysg Uwch ac i'w estyn i fod yn eiddo'r difraint megis y breintiedig. Wrth ddatblygu'n nodweddion gorau y down ni i ben â chystadleuaeth globaleiddio.